**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# P-05-955–Gwrthwynebu cynnig Costain i weithredu Opsiwn B ar gyfer dargyfeirio'r A465 ym Mryn-mawr

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Mai 2020
Petitions Committee | 11 May 2020

**Cyfeirnod:** RS20/12394-1

## Cyflwyniad

**Rhif y ddeiseb**: P-05-955

**Teitl y ddeiseb**: Gwrthwynebu cynnig Costain i weithredu Opsiwn B ar gyfer dargyfeirio'r A465 ym Mryn-mawr

**Testun y ddeiseb:** Am y rhesymau a roddir isod, rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gwrthwynebu cynnig Costain i weithredu Opsiwn B ar gyfer dargyfeirio'r A465 ym Mryn-mawr. Mae Costain yn ffafrio opsiwn B a'r bwriad yw iddi gael ei gweithredu ym mis Ebrill 2020. Ni fydd mynedfa i Fryn-mawr nac allanfa ohoni o'r Cwm Gorllewinol. Bydd Opsiwn B yn peri cynnydd dramatig yn y traffig mawr sydd eisoes yn mynd trwy Gendl a Bryn-mawr gan na fydd gan yrwyr sy'n teithio tua'r gorllewin ffordd o ddefnyddio'r A465 o ardaloedd y cwm gorllewinol, e.e. Nant-y-glo, y Blaenau, Abertyleri, Aber-big, Llanhiledd, Blaenafon ac ati. Bydd goblygiadau i fasnachwyr yn nhrefi Cendl a Bryn-mawr, sydd eisoes yn ei chael yn anodd, gan y bydd traffig sy'n teithio o'r dwyrain yn osgoi'r trefi hyn. Hefyd, bydd yr effaith amgylcheddol ar y ddwy dref yn annerbyniol oherwydd y cynnydd mewn allyriadau carbon o draffig araf sydd, yn ystod yr oriau brig, yn sefyll yn stond. Mae cyfyngiad pwysau o 7.5 tunnell ar y ffordd trwy Gendl; fodd bynnag, ni fydd traffig trwm dros 7.5 tunnell yn gallu cyrraedd A465 heb deithio trwy

Gendl a Bryn-mawr. Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn wynebu gwyriad o hyd at chwe milltir i ddefnyddio'r A465.

# 1. Y cefndir

O dan ***Ddeddf Priffyrdd 1980***, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Mae rhwydwaith hwn yn cynnwys yr A465, sef ‘Ffordd Blaenau'r Cymoedd', sy'n rhedeg o'r Fenni i Gastell-nedd.

## Ffordd yr A465 - Rhan 2

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â phrosiect i ddeuoli 40km o'r ffordd rhwng y Fenni a Hirwaun. Cafodd y prosiect ei rannu yn chwe rhan er mwyn hwyluso’r broses o’i roi ar waith fesul cam. Mae’r prosiect yn cynnwys cynllun i ledu'r ffordd rhwng Gilwern a Brynmawr, sef Rhan 2 o'r prosiect. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **trosolwg o'r cynllun** a nifer o ddogfennau yn ymwneud ag ef.

Mae'r rhan hon o'r prosiect yn cynnwys creu dwy lôn ar ddarn 8km o'r ffordd, a hynny i’r ddau gyfeiriad. Dyfarnwyd y prosiect i gwmni Costain gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2011.

Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus ym mis Mawrth 2014, ac ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **lythyr penderfyniad** yn cadarnhau'r Gorchmynion ar gyfer y cynllun.

Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r cynllun gael ei gwblhau yn 2018. Mae **gwefan Llywodraeth Cymru** bellach yn nodi y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn nhymor y gwanwyn 2021.

Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru **adroddiad ar y cynllun**. Mae’r adroddiad yn nodi y bydd y cynllun:

> …yn costio tua £100 miliwn yn fwy i bwrs y wlad nag a amcangyfrifwyd ar ddechrau’r gwaith adeiladu ac yn cymryd mwy na dwy flynedd yn hwy na’r disgwyl i’w gwblhau.

Bu anghydfod cyfreithiol hefyd rhwng Llywodraeth Cymru a Costain, sydd **wedi bod yn destun adroddiadau yn y cyfryngau**.

## Opsiynau ar gyfer trefn ffyrdd dros dro

Mae'r ddeiseb hon yn ymwneud â newidiadau i'r drefn ffyrdd dros dro sydd eisoes ar waith o amgylch cylchdro Brynmawr a fydd yn hwyluso rhai agweddau ar y gwaith. Yn ei lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn disgrifio'r cynnig fel:

> …newid sylweddol i'r drefn ffyrdd dros dro…sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r prosiect

Mae llythyr y Gweinidog yn nodi bod dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer y drefn ffyrdd dros dro. Dywed y Gweinidog:

> …mae'r gwaith o ystyried yr opsiynau wedi dangos nad oes opsiwn na fydd yn amharu ar yr ardal…nodwyd dau brif opsiwn fel y rhai a oedd fwyaf tebygol o fodloni gofynion y prosiect, sef Opsiwn A ac Opsiwn B.

Mae'r Gweinidog o'r farn "mai Opsiwn B yw'r opsiwn gorau at ei gilydd."

Mae'r deisebwyr yn codi pryderon ynghylch yr effaith y byddai opsiwn B yn ei chael. Mae llythyr y Gweinidog at y Cadeirydd yn nodi y byddai'r ffordd ymadael tua'r gorllewin i Frynmawr ar gau nes bod y prosiect bron wedi cael ei gwblhau, ac y byddai'r ffordd ymuno tua'r gorllewin ar gau am dri mis. Mae'r deisebwyr yn pryderu ynghylch yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar fasnach ym Mrynmawr, ynghylch y posibilrwydd y byddai cerbydau trwm yn teithio drwy Gendl, ac ynghylch yr oedi a'r tagfeydd y byddai'r gwyriad yn eu hachosi.

Mae effeithiau'r cynnig hefyd wedi bod yn destun **adroddiadau yn y cyfryngau.**

Yn ei lythyr at y Cadeirydd, mae'r Gweinidog yn nodi:

> … bod y modelu traffig a gynhaliwyd yn nodi y byddai teithwyr yn cyrraedd Bryn-mawr yn gyflymach o dan Opsiwn B…Disgwylir i Opsiwn B wella amseroedd teithio yn gyffredinol, a lleihau'r temtasiwn i ddefnyddio ffyrdd lleol, wrth i ddibynadwyedd wella. Dylai'r dargyfeiriad gymryd tua saith munud.

Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod terfyn pwysau o 7.5 tunnell ar gyfer cerbydau sy'n teithio drwy Gendl, a bod arwyddion sy'n hysbysu gyrwyr am y terfyn pwysau ymlaen llaw wedi'u hatgyfnerthu.

## Ymgynghoriad cyhoeddus

Roedd disgwyl i arddangosfeydd cyhoeddus gael eu cynnal ym mis Mawrth 2020 er mwyn amlinellu effeithiau'r ddau opsiwn. Yn dilyn hynny, byddai Llywodraeth Cymru:

> … [yn gobeithio] y bydd nifer o'r rheini sydd wedi llofnodi'r ddeiseb yn deall pam mai Opsiwn B yw'r opsiwn gorau at ei gilydd.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, mae'r digwyddiadau hyn wedi'u gohirio. Fodd bynnag, yn ei lythyr at y Cadeirydd, dywed y Gweinidog na fydd newidiadau yn digwydd nes bod y gwaith ymgysylltu hwn wedi cael ei gynnal.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddwyd datganiad **ar gyfrif Twitter swyddogol** y prosiect ynghylch y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus a oedd wedi'u gohirio. Roedd y datganiad yn dweud:

> We are currently exploring alternative methods to communicate the options and we will publicise these as soon as is possible in the current circumstances and at the latest by mid-April.

Ar 29 Ebrill, ar adeg ysgrifennu'r brîff hwn, nid oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael am y digwyddiadau dan sylw.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru

Ar 19 Chwefror 2020, cyhoeddodd Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru **ddatganiad ysgrifenedig** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ran 2 o'r cynllun.

Er na chafwyd trafodaeth yn y Senedd ar yr opsiynau ar gyfer y drefn ffyrdd dros dro mewn perthynas â'r agwedd hon ar y gwaith, codwyd **nifer o gwestiynau** eisoes ynghylch y cynllun cyffredinol. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd **yn bwriadu cynnal ymchwiliad** i'r cynllun yn sgil y ffaith bod gwariant ar y prosiect yn uwch na'r gyllideb a'r ffaith ei fod yn destun oedi sylweddol.

Yn fwyaf diweddar, roedd effaith pandemig y coronafeirws ar waith adeiladu, a'r oedi pellach a welwyd mewn perthynas â phrosiectau o ganlyniad i hynny, yn un o'r materion **a godwyd yn y Cyfarfod Llawn**. Dywedodd y Gweinidog:

> …rwy'n credu ein bod wedi gweld adeiladu mewn nifer o ardaloedd yn cael ei gynnal er mwyn cefnogi'r ymdrech iechyd a'r economi sydd ar waith ar hyn o bryd…yr A465 hefyd—darn hanfodol o seilwaith economaidd a fydd yn ganolog i'r economi ranbarthol a'r broses o ymadfer wedi'r coronafeirws yn y blynyddoedd i ddod.